# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU - GWASANAETHAU I OEDOLION

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE ON DYDD MAWRTH, 8 AWST 2017 AM 3.30 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams | S M Jones |
| J W Jones | A Pugh | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| T Beddow | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): G J Tanner

1 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Datgeliadau o fuddiannau - Chris Holley ac Alyson Pugh

2 **NODIADAU O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5 EBRILL 2017**

Nodwyd

3 **TROSOLWG O'R BLAENORIAETHAU A'R HERIAU ALLWEDDOL I'R GWASANAETHAU I OEDOLION YN ABERTAWE**

Rhoddodd Alex Williams, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, gyflwyniad i'r panel (dosbarthwyd ar wahân).

Dosbarthwyd copïau caled o ddiagram Strwythur y Gwasanaethau i Oedolion i'r panel yn y cyfarfod, yn ogystal â manylion cyswllt. Cynghorwyd aelodau'r panel i gysylltu ag Alex Williams yn y lle cyntaf.

Camau Gweithredu:

- Alex Williams i gadarnhau lleoliad 5 safle mewnol a 3 safle allanol gwasanaethau dydd

- Cyflwyniad a roddwyd yn y digwyddiad hyfforddiant i gynghorwyr ar 8 Awst 2017 ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i'w ddosbarthu i'r panel
- Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol a godir yn sgîl achos llys diweddar i'w ddarparu i'r panel - disgwylir Chwefror 2018
- Alex Williams i ddarparu map o ffiniau'r hwb integredig i'r panel.

4 **RÔL Y PANEL GAN GYNNWYS Y CYLCH GORCHWYL A'R RHAGLEN WAITH DDRAFFT**

Cytunwyd:

- Cytunodd y panel ar yr amserau a'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2017/18.
- Cytunodd y panel i wahodd cyfetholwr arall i'r panel - Katrina Guntrip.
- Cytunwyd ar Raglen Waith Arfaethedig ar gyfer 2017/18 gydag un eitem wedi'i hychwanegu. Adroddiad am sut mae nodau polisi'r cyngor yn trosglwyddo i nodau'r Gwasanaethau i Oedolion i'w gyflwyno yng nghyfardod 10 Hydref.
- Cytunwyd ar gylch gorchwyl gyda dau newid arfaethedig:
  - Dan bwynt 1, ychwanegu pwynt bwled arall - 'Oherwydd perthnasoedd partneriaeth allweddol'
  - Dan bwynt 2, newid pwynt bwled 1 o 'dderbyn a cheisio adroddiadau perfformiad perthnasol' i 'geisio a derbyn adroddiadau perfformiad perthnasol'.

Camau Gweithredu:

- Gwahodd Katrina Guntrip i fod yn rhan o'r panel fel cyfetholwr.
- Newid y rhaglen waith fel a drafodwyd.
- Gofyn i'r Pwyllgor Craffu gytuno ar ddau newid arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Panel Gwasanaethau i Oedolion.
- Gwirio os oes mwy o wybodaeth am iechyd meddwl wedi'i darparu gan Fwrdd Iechyd PABM. Gofynnodd y panel am fwy o wybodaeth yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2017. Ansicr os yw'r wybodaeth hon wedi cael ei darparu.

5 **LLYTHYRAU**

Nodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm